

# I'R GOFOD!

## 1. Darllen a deall yr erthygl:

1. Ar ddechrau'r erthygl, beth mae'r "cwmni sydd am weld y lle'n cael ei ddatblygu" yn ei ddweud?
2. Beth yw enw'r cynllun neu'r "achos" sy'n cael ei gynnig mewn cynhadledd yn Llundain?
3. Pwy oedd yn cynnal y gynhadledd a phwy oedd yno?
4. Pa ansoddair arall allai'r newyddiadurwr fod wedi ei ddefnyddio yn hytrach na "deniadol" wrth ddisgrifio'r achos?
5. Allwch chi aralleirio'r\* pwyntiau manteisiol?

**\*aralleirio – newid trefn y frawddeg neu newid y geiriau yn y frawddeg i ddweud yr un peth.**

## 2. Dadansoddi'r stori:

1. Pa frawddeg yn y stori sy'n awgrymu bod y cymeriad wedi rhegi?
2. Allwch chi ddarganfod enghraifft o bersonoli yn y stori?
3. Pa ran o'r stori sy'n awgrymu bod y cymeriad wedi gwylltio?
4. Beth mae "chwip o long ofod" yn ei olygu? Allwch chi ei aralleirio\*?
5. Beth mae "wedi pori drwyddyn nhw'n ofalus" yn ei olygu?

## 3. Yr erthygl a'r stori:

1. Trafodwch y cysylltiad rhwng y ddau ddarn.

- 
2. Gan ddefnyddio'r ddau ddarn i'ch ysbrydoli ewch ati i ysgrifennu stori fer wyddonias. Defnyddiwch y daflen "Canllaw Stori Fer" i'ch helpu i gynllunio eich stori.
3. Beth am fynd ati i ddarllen y nofel ar ei hyd?